# Meddygfa Bron Y Garn, Maesteg

## YR HYN A WNAETHOM

Ar ôl cofrestru ar gyfer Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru yn 2022, roedden ni'n awyddus i ddechrau gweithio tuag at ennill Gwobr Aur.

Gan fod ein practis wedi'i leoli mewn adeilad a reolir gan y bwrdd iechyd lleol, roeddem yn wynebu cyfyngiadau wrth wneud gwelliannau strwythurol neu welliannau i'r ystad. Roedd hyn yn golygu bod mynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r adeilad a'r cyfleustodau yn heriol o fewn cyfyngiadau'r amgylchedd.

Er gwaethaf y rhwystrau hyn, fe wnaethom ganolbwyntio ar gamau gweithredu o fewn ein rheolaeth i leihau ein hôl troed carbon drwy wella effeithlonrwydd a lleihau gwastraff. Arweiniodd y dull hwn at gynnydd sylweddol mewn meysydd fel dad-ragnodi a rheoli anadlyddion.

Fe wnaethon ni gyflwyno mentrau dad-ragnodi i leihau defnydd diangen o feddyginiaeth a throsglwyddo cleifion i anadlyddion powdr sych, mwy gwyrdd lle bo'n briodol yn glinigol, gan gyd-fynd â Phrosiect Gwella Ansawdd Cymru ar y pryd. Mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth, ac rydym yn parhau i weld canlyniadau cadarnhaol o'r newid hwn. Yn ogystal, fe wnaethon ni fabwysiadu defnyddio papur wedi'i ailgylchu a gwell arferion caffael. Mae'r mesurau hyn wedi'u hymgorffori mewn gweithrediadau arferol, gan sicrhau effaith hirdymor.

## YR HYN YR YDYM FWYAF BALCH OHONO

Dod yn brif bresgripsiynydd anadlyddion powdr sych ar draws y Fwrdd Iechyd, sy'n lleihau allyriadau carbon ac yn gwella rheolaeth asthma.

Llwyddodd i ymgorffori cynaliadwyedd mewn arferion clinigol a gweithredol er gwaethaf heriau sylweddol.

Ymgysylltu â'r Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â gwastraff ac aneffeithlonrwydd cyfleustodau. Yn y pen draw, arweiniodd ein heiriolaeth barhaus at welliannau yn effeithlonrwydd yr adeiladau (e.e. gosod ffenestri newydd).



GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf University Health Board

**DERBYNIODD MEDDYGFA BRON Y GARN WOBR AUR GOFAL SYLFAENOL GWYRDDACH CYMRU YN 2022**



**I GAEL RHAGOR O WYBODAETH, EWCH I:**
https://www.bronygarnsurgery.com/

# Meddygfa Bron Y Garn, Maesteg

## PA WAHANIAETH WNAETH HWN?

**Amgylcheddol**

O safbwynt amgylcheddol, ein nod yw cyfrannu at leihau ôl troed carbon trwy ragnodi anadlyddion gwyrddach a rheoli gwastraff yn well.

**Ariannol**

Yn ariannol, rydym yn gobeithio arbed arian yn yr hirdymor trwy leihau anghenion argraffu, annog y tîm i weithio o'r canolfannau yn nes at y cartref, hyrwyddo rhannu ceir, a dewis cyfarfodydd ar-lein pryd bynnag y bo modd.

**Clinigol**

Yn glinigol, trwy annog staff i gwblhau hyfforddiant MECC, mae ymgynghoriadau cleifion wedi bod yn fwy cynhyrchiol, sydd wedi gwella ansawdd cyffredinol y gwasanaeth.

**Cymdeithasol**

Penderfynon ni flaenoriaethu mentrau a allai wella iechyd a llesiant ein tîm a'n cleifion. Mae'r Cynllun hefyd wedi profi i fod yn ymarfer adeiladu tîm effeithiol, sy'n cryfhau cydweithio ar draws y gwasanaeth.

Gwnaethon ni yn siŵr ein bod yn ystyried barn pawb heb feirniadaeth. Roedd angen cyfathrebu gofalus a hyblygrwydd er mwyn sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed wrth gynnal momentwm ar yr un pryd.

## BETH NESAF?

Rydym yn bwriadu ehangu a symleiddio ein mentrau presgripsiynu cymdeithasol trwy gydweithio'n agos â chydlynwyr gofal yn y gymuned. Bydd hyn yn cynnwys creu llwybrau atgyfeirio cliriach, gwella cyfathrebu rhwng y practis a gwasanaethau cymorth lleol, a sicrhau y gall cleifion gael mynediad at ystod ehangach o adnoddau cymunedol i gefnogi eu hiechyd a'u llesiant.

Yn ogystal, ein nod yw datblygu sesiynau addysgu a fydd yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd ar gyfer cofrestryddion meddygon teulu, a fydd yn cyd-fynd yn llawn â gofynion y cwricwlwm wedi'u diweddaru. Bydd y sesiynau hyn yn darparu canllawiau ymarferol ar weithredu arferion sy'n amgylcheddol gyfrifol mewn lleoliadau clinigol, gan helpu meddygon teulu'r dyfodol i ymgorffori cynaliadwyedd yn eu gofal arferol.

Yn olaf, byddwn yn parhau i eiriol dros gymell neu orfodi cynaliadwyedd ar lefel genedlaethol. Drwy integreiddio mentrau gwyrdd i rwymedigaethau contractiol neu gynnig cymhellion ariannol, gallwn annog practisiau gofal sylfaenol i'w mabwysiadu'n ehangach, a fydd yn sicrhau y bydd cynaliadwyedd yn dod yn elfen greiddiol o ddarparu gofal iechyd yn hytrach nag yn ddewis ychwanegol.

BRON-Y-GARN
SURGERY • MEDDYGFA • MAESTEG

## AWGRYMIADAU GWYCH

- Integreiddiwch gynaliadwyedd yn eich contractau (e.e. Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) neu roi cymhellion drwy brosiectau gwella ansawdd.
- Ymgysylltwch â chofrestryddion meddygon teulu, gan fod cynaliadwyedd bellach yn rhan o'u cwricwlwm hyfforddi.
- Dechreuwch gyda chamau bach, ymarferol fel cyflwyno anadlyddion gwyrddach a defnyddio papur wedi'i ailgylchu.
- Dylid meithrin perthnasoedd cryf â rhanddeiliaid (e.e. y Bwrdd Iechyd, rheolwyr gwastraff) i oresgyn heriau seilwaith.

## MANYLION CYSWLLT

Kelly Price - kelly.price9@wales.nhs.uk
(Rheolwr y Practis)